

Aelodau Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Sian C Jones

Mae fy nghefnidir i mewn gwaith ieuenctid a chymunedol mewn gofal cymdeithasol, ac rydw i wedi gweithio gyda gwirfoddolwyr ym maes gofal plant ledled Cymru am nifer o flynyddoedd, yn hyfforddi pobl mewn cymunedau difreintiedig ym mhob agwedd ar ofal plant. Yn ddiweddarach yn fy ngyrfa, bûm yn eiriolwr dros bobl ifanc a oedd yn gadael gofal, a oedd ag anabledau dysgu neu a oedd yn methu mynegi eu teimladau ar lafar. Fy rôl olaf cyn i mi ymdeol oedd fel swyddog gydag Age Concern (Age Concern UK nawr) lle bûm yn gweithio gyda 600 o bobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf ar eu hymgyrch i gael gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydw i wedi bod yn aelod o'r Rhwydwaith Cynnwys Pobl am y saith mlynedd diwethaf. Rydw i'n frwd ynglŷn â'm rôl â chynnwys y cyhoedd ac, oherwydd fy mhrofiad, rydw i'n gwybod bod yna lawer o bobl nad ydyn nhw'n gallu siarad drostyn nhw'u hunain. Rydw i'n gobeithio y galla' i gynrychioli barn cleifion a'r cyhoedd yn ddigonol yn fy rôl.

Ers 2013, rydw i wedi helpu i hwyluso hyfforddiant ym maes cynnwys y cyhoedd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau newydd o'r Rhwydwaith Cynnwys Pobl gan hyrwyddo pwysigrwydd hyn i ymchwil. Rydw i'n frwd ynglŷn â'r hyfforddiant hwn gan ei fod yn bwnc mor ddiddorol a phwysig.

Mae fy rôl i fel aelod o Fwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd wedi bod yn ddiddorol iawn ac rydw i'n meddwl ei fod yn helpu i ddarparu sail ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Mae hi wedi bod yn fraint cael chwarae fy rhan ar y bwrdd a pharhau i gyfrannu at ei waith.

“Rydw i'n frwd ynglŷn â'm rôl â chynnwys y cyhoedd.”

Julie Hepburn

Gwnes i ymdeol o fy swydd fel dirprwy gyfarwyddwr Gwasanaeth Gyrfaedd Prifysgol Caerdydd ym mis Rhagfyr 2013, wedi treulio 26 o flynyddoedd yn y maes. Cyn hyn roedd gen i brofiad o weithio yn addysgu gwyddoniaeth yn y sector addysg uwchradd ac addysg bellach, a threuliais gyfnod o dair blynedd o'm gyrfa ym maes rheoli ysbysai.

Graddiais mewn ffisioleg a biocemeg ac rydw i wedi bod â diddordeb mewn iechyd, ymchwil cysylltiedig ag iechyd a'r GIG erioed. Golyga'r ffaith i mi gael ambell gyfnod o afiechyd yn ystod y blynyddoedd diweddaraf fy mod i wedi bod yn ddefnyddiwr rheolaidd o'r GIG sy'n golygu, yn ei dro, bod gen i rywbeth i'w gynnig i'r Rhwydwaith Cynnwys Pobl. Ar hyn o bryd, rydw i'n aelod o bedwar tîm rheoli treialon ar gyfer prosiectau ymchwil, dau grŵp llywio,

Panel Blaenoriaethu Cymru Gyfan a phwyllgor Gwasanaethau Diagnostig y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE).

Rydw i'n gobeithio y bydd fy mhrofiadau blaenorol a phresennol yn gefndir ardderchog i'm galluogi fel aelod o'r cyhoedd i gyfrannu'n effeithiol at gynllunio strategol a datblygiad pellach cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil trwy'r Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd.

“Rydw i'n gobeithio y bydd fy mhrofiadau blaenorol a phresennol yn gefndir ardderchog”

Bob McAlister

Rydw i'n wreiddiol o gymuned Glyn-nedd yn y cymoedd, lle roedd fy nhad yn löwr yn y gwaith glo brig. Mi es i Ysgol Ramadeg y Bechgyn Castell-nedd ac yna'n ddiweddarach i Brifysgol Aberystwyth. Wedi derbyn fy addysg, fe symudais i Lundain i weithio mewn amrywiol swyddi fel athro cyflenwi a ches i gyfnod yn Harrods.

Mi ddes i yn ôl i Gastell-nedd ym 1981 ac ymunais bryd hynny â Heddlu De Cymru. Mi dreuliais i ddeng mlynedd ar hugain gyda'r heddlu, ac yn ystod y cyfnod hwn mi ges i fy lleoli ledled De Cymru ond yn fwyaf aml ym Mhort Talbot. Yn ddiweddarach, fe ddes i'n gomander heddlu rhanbarthol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, a oedd yn gyfle i mi wasanaethu ardal roeddwn i'n gyfarwydd iawn â hi. Mae fy rolau eraill yn cynnwys rhai mewn cynllunio at argyfwng, datblygu arweinyddiaeth ac un arall fel pennaeth safonau proffesiynol yr heddlu. Roeddwn i hefyd yn aelod o Gyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe.

Ers gadael yr heddlu, rydw i wedi gweithio dramor yn achlysurol yn darparu hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori i'r heddlu ond mae fy swydd 'bob dydd' newydd yn galw am ddarparu cymorth presenoldeb i ysgolion (ymweld â chartrefi disgyblion) – felly rydw i'n parhau i fod mewn cysylltiad â'r cyhoedd.

Roeddwn i'n teimlo rhyw dynfa at waith y Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd oherwydd rhyw awydd i sicrhau bod bwriad da iawn – sef gosod blaenoriaethau'n unol â mewnbwn y cyhoedd – yn cael ei ddilyn ac yn dod yn realiti.

“Roeddwn i'n teimlo rhyw dynfa at waith y Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd”

Dr Jim Fitzgibbon

Bûm yn gweithio cyn hyn ym myd addysg a maes gwasanaethau cymdeithasol yn Lloegr fel athro ac uwch-reolwr ar ôl astudio yn Sefydliad Addysg Llundain a chymhwyso fel athro ym 1973. Gwnes i gwblhau doethuriaeth ran-amser ym Mhrifysgol Warwick yn 2006 cyn dychwelyd i Gymru.

Pan wnes i ymddeol, fe ddechreuais i gymryd rhan mewn ymchwil feddygol, i ddechrau fel partner ymchwil a chydgylltydd partner ymchwil gyda Marie Curie ac Uned Treialon Canser Cymru. Bûm yn aelod o grŵp rheoli nifer o astudiaethau cyhoeddedig ac rydw i wedi cyhoeddi papur ar sail fy mhrofiadau i fy hun.

Rydw i wedi bod yn gadeirydd Ymddiriedolwyr Biwro Gwirfoddolwyr y Fro ac yn ymddiriedolwr Coventry Foyer, sef gwasanaeth tai â chymorth. Roeddwn i hefyd â chysylltiad â strwythur llywodraethu ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar hyn o bryd, rydw i'n arwain ar gynnwys y cyhoedd â Chanolfan Ymchwil Canser Cymru.

Gwnes i ymuno â'r Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd i helpu i gefnogi datblygu polisi ac arfer Llywodraeth Cymru ymhellach o ran cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil feddygol, o'r blaenoriaethu hyd at ei lledaenu. Rydw i wedi ymrwymo i'r cysyniadau o ofal iechyd sy'n cael ei gydgyhyrchu ac sy'n ddarbodus.

“Rydw i wedi ymrwymo i'r cysyniadau o ofal iechyd sy'n cael ei gydgyhyrchu ac sy'n ddarbodus.”

Barbara Harrington

Rydw i newydd ymdeol o'm gyrfa ym maes tai cymdeithasol lle bûm yn cyflawni rolau arweinyddiaeth weithredol a strategol. Fy rôl ddiweddaraf i oedd gyda Llywodraeth Cymru'n gweithio ar reoleiddio cymdeithasau tai. Mae fy mhrofiadau i o wirfoddoli'n cynnwys gwasanaethu fel aelod o fwrdd a chadeirydd pwyllgor llywodraethu Cartrefi Rhondda Cynon Taf, sef model cymunedol cydfuddiannol, ac fel ymddiriedolwr a chadeirydd y pwyllgor risg i elusen Cymdeithas Gristnogol Menywod Ifanc, neu Ymddiriedolaeth Menywod Ifanc bellach.

Rydw i wedi dangos fy ymrwymiad i gyfranogiad y cyhoedd, trwy gydol fy ngyrfa ym maes cymdeithasau tai drwy hyrwyddo a hwyluso cynnwys tenantiaid a chymunedau lleol ym mhob agwedd o waith. Ers 2012, rydw i wedi dangos fy ymrwymiad i gynnwys y cyhoedd drwy fy ngweithgareddau fel aelod o'r Rhwydwaith Cynnwys Pobl.

Mae gan ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol ran hanfodol i'w chwarae i wella iechyd a llesiant pobl Cymru. Rydw i'n credu y bydd cynnwys y cyhoedd yn effeithiol yn cyfoethogi ansawdd, perthnasedd ac effaith ymchwil yn sylweddol ac yn rhoi gwell gwerth am arian. Mae bod yn aelod o'r Bwrdd Cyflawni Cynnwys y Cyhoedd yn gyfle i mi gyfrannu fy sgiliau, fy mhrofiad a'm brwdfrydedd er mwyn hybu buddiannau'r cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Fe fydd hefyd yn caniatáu i mi sicrhau bod ymchwil y dyfodol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r claf, y gofalwr a'r cyhoedd ac yn ymgorffori trefniadau cadarn ar gyfer cynnwys y cyhoedd.

“Bydd cynnwys y cyhoedd yn effeithiol yn cyfoethogi ansawdd, perthnasedd ac effaith ymchwil yn sylweddol”

Sarah Peddle

Gwnes i ymuno â'r Rhwydwaith Cynnwys Pobl a phrosiect peilot PARC – Pwyllgor Cyngor i'r Boblogaeth ar gyfer Ymchwil, â Phrifysgol Abertawe ym mis Mai 2017. Rydw i wedi bod â diddordeb yn y maes hwn erioed, ac rydw i wedi bod yn chwilio am gyfleoedd fel hyn i fedru chwarae mwy o ran. Mae gen i gefndir mewn mathemateg/ystadegau ac rydw i wedi gweithio fel rheolwr prosiect i gwmni ymchwil gymdeithasol. Rydw i wedi treulio rhan helaeth

o'm gyrfa mewn llywodraeth leol, yn gweithio ar lefel uwch-reolwr am dros naw mlynedd. Mae bod yn aelod o'r grwpiau hyn yn rhoi cyfle i mi chwarae rhan (fel aelod o'r cyhoedd) mewn ymchwil iechyd a gofal, ac rydw i wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau bod fy nghyfraniad yn effeithiol.

Rydw i wedi casglu llawer o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yn ystod fy ngyrfa, ac rydw i'n hynod gyffrous ynglŷn â chyflawni fy rôl fel aelod o'r bwrdd, gan y bydd yn caniatáu i mi ddefnyddio fy sgiliau tra fy mod hefyd yn cyfrannu at faes sydd o ddiddordeb i mi, gyda'r nod o fod o fudd i'r gymdeithas ehangach yn y pen draw. Mae'r ffaith bod gen i ddau o blant bach, ynghyd â chyflwr iechyd cronig, wedi f'ysgogi i gymryd ychydig o amser i ffwrdd o waith amser llawn, ac mae hefyd wedi rhoi'r cyfle a'r gallu i mi ymgymryd â'r rôl hon.

Rydw i'n awyddus iawn i wneud defnydd da o'r profiad sydd gen i – roeddwn i'n gyfrifol am reoli data, gwybodaeth, cynllunio a rheoli perfformiad, ymysg pethau eraill, ac yn ôl a welaf i mae hyn yn berthnasol ac yn werthfawr i'm rôl cynnwys y cyhoedd.

Ers ymuno â'r rhwydwaith rydw i wedi cael y cyfle i gyfrannu at astudiaethau'n ymwneud â chyneclampsia, diabetes yn ystod beichiogrwydd a chlotiau gwaed. Rydw i hefyd wedi ymuno â grŵp PRIME SUPER – Defnyddwyr Gwasanaeth Ymchwil Gofal Sylfaenol a Gofal Brys – sy'n cefnogi Canolfan PRIME Cymru trwy roi persbectif lleygwyr ar ddatblygu, cynnal a lledaenu ymchwil ynglŷn â gofal sylfaenol a gofal brys. Yn fwyaf diweddar, rydw i wedi cymryd rhan ym mhrosiect FRAIT (Teclyn ac Offeryn Asesu Gwydnwch Teuluol). Yn fy marn i, fe fydd y cyfan yn brofiad gwerthfawr wrth i mi gyflawni fy rôl fel aelod o'r bwrdd.

“Rydw i'n hynod gyffrous ynglŷn â chyflawni fy rôl fel aelod o'r bwrdd, gan y bydd yn caniatáu i mi ddefnyddio fy sgiliau tra fy mod hefyd yn cyfrannu at faes sydd o ddiddordeb i mi, gyda'r nod o fod o fudd i'r gymdeithas ehangach yn y pen draw.”

Warren Fauvel

Warren ydy sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Nudjed, sy'n datblygu gwaith arloesi mewn iechyd digidol gyda'r GIG, ac mae'n aelod o fwrdd Cardiff Start, sef cymuned o fusnesau sy'n sefydlu o'r newydd yn Ne Cymru. Sefydlodd Warren ei fusnes cyntaf yn 22 mlwydd oed ac mae wedi gweithio gyda chyryff fel y GIG, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Google a Virgin Media, gan ennill sawl gwobr yn cynnwys gwobr SXSWi am arloesi ym maes technoleg.

Anne Thomas

Ymunodd Anne â Linc ym mis Mawrth 2012 gyda thros deng mlynedd ar hugain o flynyddoedd o brofiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys rheolaeth strategol a gweithredol o fewn y GIG ac Awdurdod Lleol. Mae Anne yn frwd ynglŷn â dylunio a chyflenwi gwasanaethau gyda'r bobl sy'n eu defnyddio nhw, gan hybu annibyniaeth ac ansawdd bywyd.

Mae Anne yn gyfrifol am waith cynllunio, gwaith datblygu, cyfeiriad a pherfformiad ein his-adran iechyd a gofal cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau tai, gofal a chymorth i bobl hŷn yn bennaf, a grwpiau eraill sy'n derbyn gwasanaethau.